**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/1163/22

Peredur Owen Griffiths, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Ebrill 2022

**BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU ETC. (PŴER I ADDASU)**

Annwyl Peredur,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 8 Ebrill 2022 mewn perthynas â Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) ("y Bil"). Mae fy ymateb i'ch cais am wybodaeth cyn Dadl Egwyddorion Cyffredinol Cam 1 i'w weld isod. Nid yw'r enghreifftiau yn nodi unrhyw faterion hysbys o ran Deddfau Trethi Cymru. Dim ond at ddibenion ymateb i gais y Pwyllgor y rhoddir yr enghreifftiau hyn. Darparaf ymateb ysgrifenedig manwl pellach ynghylch argymhellion eraill y Pwyllgorau Cyllid a DCC yn dilyn Dadl Egwyddorion Cyffredinol Cam 1.

Heddiw hefyd rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i amlinellu fy ymateb i'w bedwar argymhelliad yn gofyn am wybodaeth cyn Dadl Egwyddorion Cyffredinol Cam 1.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil, yn rhoi enghreifftiau o'r amgylchiadau penodol lle mae'n rhagweld y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1(1) yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio pob Rhan o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (ac eithrio Rhan 2), Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

**<u>Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017</u>**
Adolygiad o'r Rhannau o'r Ddeddf ac enghreifftiau o ddiwygiadau a all gael eu gwneud gan reoliadau o dan Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. Mae nifer o feysydd hanfodol o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") lle rhoddodd y Senedd bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Hefyd mae'r Senedd eisoes wedi rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu ardrethi a bandiau ar gyfer Treth Trafodiadau Tir (TTT) drwy reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud rheoliadau gadarnhaol gwnaed. Fodd bynnag, mae meysydd lle na cheir pwerau gwneud rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â chyfrifo treth (Rhan 3). Mae'r enghreifftiau isod yn cynnwys achosion lle mae gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau yn barod (a lle gall natur frys sefyllfa olygu bod gwneud rheoliadau drwy'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed yn angenrheidiol neu'n briodol) ac achosion lle nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau. Ni fwriedir i hyn fod yn rhestr lawn o bob newid posibl a allai ddeillio o'r digwyddiadau allanol a bennir ym mhedwar prawf diben y Bil. Rhydd enghreifftiau, yn ôl y gofyn, o sefyllfaoedd lle gallai'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1(1) o'r Bil ddiwygio pob Rhan o'r Ddeddf.

2. Hefyd, roedd papur ymgynghori 2020: *Datganoli Trethi: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru*[1] yn cynnwys chwe enghraifft yn amlinellu newidiadau polisi llywodraeth y DU sydd wedi digwydd yn y gorffennol, y camau y gallai Gweinidogion Cymru eu cymryd ar hyn o bryd, a beth y gallent ei wneud â'r tri phŵer gwneud rheoliadau fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori[2]. **Ni** fyddai'r chweched enghraifft yn bodloni unrhyw un o'r pedwar prawf diben ac ni allai'r pŵer yn y Bil hwn gael ei ddefnyddio i gyflawni'r newid. Mae hyn oherwydd na fyddai'r newid o ganlyniad i ddigwyddiad allanol ond y byddai'n cynrychioli newidiadau polisi Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi bod yn glir mai dim ond er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol y defnyddir y pŵer, ac mae cwmpas y pŵer wedi'i gyfyngu drwy gynnwys pedwar prawf diben sy'n amlinellu'n gwbl glir o dan ba amgylchiadau y gellir defnyddio'r pŵer.

## Rhan 1: Trosolwg

3. Yn Rhan 1 ceir trosolwg o'r Ddeddf, sy'n amlinellu diben pob Rhan. Hwyrach y bydd angen i'r rhan hon o'r Ddeddf gael ei diwygio petai Rhan newydd yn cael ei chyflwyno gan reoliadau a wneir o dan y pŵer yn y Bil, neu newidiadau i ddiben unrhyw un o'r Rhannau neu'r Atodlenni presennol (megis ehangu'r materion dan sylw). Byddai unrhyw newidiadau i'r Rhan hon yn deillio o wneud diwygiadau canlyniadol sydd o bosibl yn deillio o newidiadau sylweddol a wneir gan ddefnyddio adran 1(1) o'r Bil.

## Rhan 2: Y Dreth a'r Prif Gysyniadau

4. Yn Rhan 2 darperir ar gyfer codi treth ar drafodiadau tir a gwneir darpariaeth ynghylch y prif gysyniadau sy'n sail i'r dreth. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau yn pennu pa drafodiadau sy'n drafodiadau tir ac yn fuddiannau trethadwy, pa bryd y caffaelir buddiannau, trin trafodiadau sy'n cynnwys contractau a mathau eraill o drafodiadau, pa drafodiadau tir y mae'r dreth i'w chodi arnynt, a pha rai nad yw'r dreth i'w chodi arnynt, a'r hyn sy'n gydnabyddiaeth drethadwy, a'r hyn nad yw'n gydnabyddiaeth drethadwy mewn perthynas â thrafodiad trethadwy.

5. Cafodd y rheolau yn ymwneud â chyflawni'n sylweddol gontract trafodiad tir eu cyflwyno fel rhan o Dreth Dir y Dreth Stamp (TDDS) er mwyn mynd i'r afael â gweithgareddau

[1] Gellir gweld *Datganoli Trethi yng Nghymru: Ei gwneud yn bosibl cyflwyno newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru* (Gorffennaf 2020) yn: https://llyw.cymru/ei-gwneud-yn-bosibl-cyflwyno-newidiadau-i-ddeddfau-trethi-cymru. Gweler Pennod 4, tt 28 - 37

[2] Mae pwerau 1-3 bellach wedi cael eu disodli gan un pŵer gwneud rheoliadau fel y'i nodir yn y Bil drafft. Gellir ystyried bod y cyfeiriadau at bwerau 1-3 yn ymwneud â'r pŵer unigol a ddarperir yn y Bil.

osgoi trethi sylweddol mewn treth stamp (hynny yw'r dreth ragflaenol a oedd yn gymwys i gontractau yn trosglwyddo tir cyn iddi gael ei disodli gan TDDS). Os bydd hyrwyddwyr yn dadlau eu bod wedi canfod ffordd o gamfanteisio ar y rheolau presennol, bydd angen gwneud newidiadau cyn gynted â phosibl er mwyn diogelu'r sylfaen drethu.

6. Yn yr un modd, camfanteisiwyd yn fawr ar reolau TDDS yn ymwneud ag is-werthiannau. Erbyn i'r dreth gael ei datganoli i Gymru, roedd cyfres o newidiadau deddfwriaethol eisoes wedi cael eu gwneud i'r dreth ragflaenol a wnaeth ddileu'r cyfleoedd canfyddedig. Fodd bynnag, os bydd hyrwyddwyr unwaith eto yn ceisio camfanteisio ar y rheolau hyn, bydd angen gwneud newidiadau (yn unol â phrawf diben 1(1)(b) - diogelu rhag osgoi trethi) er mwyn sicrhau bod modd i'r ddeddfwriaeth gael ei hegluro fel nad yw trethdalwyr yn ymrwymo i gynlluniau. Ar yr un pryd gellir cymryd camau i herio'r rhai sydd eisoes wedi ceisio camfanteisio ar y rheolau er mwyn ceisio osgoi eu rhwymedigaethau treth.

7. Hefyd bu achosion treth diweddar yn ymwneud â cheisio camfanteisio ar y rheolau yn ymwneud â blwydd-daliadau. Bu'r rhain yn aflwyddiannus, ond, petai ffordd yn cael ei chanfod o gamfanteisio ar y rheolau blwydd-daliadau, byddai Gweinidogion Cymru (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) am wneud newidiadau yn ddi-oed a fyddai, yn ddiau, yn atal gweithgareddau o'r fath. Byddai'r ACC yn parhau i herio'r rhai a oedd yn dadlau bod y rheolau cyn eu diwygio yn cyflawni'r canlyniad a ddymunwyd ganddynt.

8. Enghraifft arall yw y gall llywodraeth y DU geisio gwneud trwyddedau a thenantiaethau fel y mynno yn ddarostyngedig i TDDS ac felly roi'r gorau i esemptio buddiannau. Petai Gweinidogion Cymru (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) am gyflwyno newid cyfatebol yn ddi-oed yng Nghymru, gellid defnyddio prawf diben 1(1)(c) (ymateb i newidiadau a wneir i drethi rhagflaenol a allai effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru).

9. Yn yr un modd, mewn perthynas â llawer o'r adrannau a geir yn Rhan 2, mae'n bosibl y gallai penderfyniad llys bennu bod y gyfraith yn gweithredu mewn modd sy'n wahanol i'r modd y deallwyd ei bod yn gweithredu ynddo gynt. Gallai'r penderfyniad llys ymwneud â TTT, TDDS, y Dreth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (TTTA) neu, efallai, achos cyfraith tir. Er enghraifft, gallai achos llys bennu bod i greu, ildio, rhyddhau neu amrywio buddiant ystyr ac effaith a fyddai'n golygu bod angen egluro ein deddfwriaeth. Hwyrach y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai methu ag egluro'r gyfraith yn y fath fodd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft trafodiadau yn osgoi talu treth neu'n atebol ar gyfer treth Gallai'r pŵer gwneud rheoliadau a nodir yn y Bil hwn gael ei ddefnyddio, os yn angenrheidiol neu'n briodol, i wneud y mathau hyn o newidiadau yn ddi-oed gan ddefnyddio prawf diben 1(1)(d).

## <u>Rhan 3: Cyfrifo treth a rhyddhadau</u>

10. Yn **Rhan 3** gwneir darpariaeth mewn perthynas â chyfrifo treth, y bandiau treth a chyfraddau treth, a'r rhyddhadau sydd ar gael (gan gynnwys Rheol wedi'i Thargedu yn Erbyn Osgoi Trethi rhyddhadau).

11. Petai llywodraeth y DU yn cyflwyno cyfundrefn codi treth newydd, yn debyg i gyfundrefn cyfraddau uwch am anheddau ychwanegol TDDS (trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch TTT), byddai'r pŵer gwneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru, os yn angenrheidiol ac yn briodol, i ymateb yn ddi-oed, gan o bosibl gyflwyno math tebyg neu gyfatebol o newid gan ddefnyddio prawf diben 1(1)(c).

12. Yn yr un modd, os yw llywodraeth y DU yn dewis newid y dull o gyfrifo TDDS, fel y digwyddodd gynt wrth symud o'r system ‘slab’ i'r system ‘sleis’ yn 2014 ar gyfer

trafodiadau eiddo preswyl, byddai'n debygol o effeithio ar yr addasiad i'r grant bloc. Felly byddai effaith o'r fath yn newid y swm a fyddai'n cael ei dalu i'r Gronfa Gyfunol a gellid defnyddio prawf diben 1(1)(c) i wneud newidiadau deddfwriaethol. Ar gyfer trafodiadau preswyl, roedd disgwyl i'r newid o'r dull cyfrifo slab i sleis leihau ymdrech Treth Dir y Dreth Stamp gryn dipyn gyda'r mwyafrif o brynwyr yn cael budd o arbed treth. Gallai Gweinidogion Cymru benderfynu dilyn y newid mewn methodoleg, gwneud newidiadau gwahanol, neu beidio â chyflwyno unrhyw newid. Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau yn y Ddeddf yn barod i wneud y fath newidiadau. Byddai angen rheoliadau a wnaed gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil hwn i gyflwyno'r fath newidiadau, ac yn yr achos penodol hwn, po gyflymaf y gwneir y rheoliadau, y cynharaf y byddai trethdalwyr Cymru yn talu llai o dreth.

13. Mae'r rheolau yn ymwneud â'r rhyddhadau penodol i'w gweld yn Atodlen 2 (i'r graddau y maent yn ymwneud â thrafodiadau cyn cwblhau) ac Atodlenni 6 i 22. Gellid dileu unrhyw gyfleoedd osgoi trethi canfyddedig yn gyflym drwy wneud newidiadau gan ddefnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau (prawf diben 1(1)(b)) yn y Bil hwn a'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed. Byddai hyn yn atal yn ddi-oed achosion lle mae newydd-ddyfodiaid yn ymrwymo i drefniadau osgoi trethi sy'n ceisio camfanteisio ar y rhyddhadau. Yn achos y trethdalwyr hynny a oedd wedi gwneud trefniadau i geisio osgoi talu treth yn flaenorol, bydd ymholiadau gan yr ACC i bennu'r holl ffeithiau a dadleuon, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, apelio i'r Tribiwnlysoedd ac uwch lysoedd yn datrys y sefyllfa dreth.

14. Hefyd, caiff cyflwyno rhyddhad Treth Dir y Dreth Stamp newydd effaith ar yr addasiad i'r grant bloc ac felly y symiau a delir i'r Gronfa Gyfunol gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mae cyflwyno rhyddhad Treth Dir y Dreth Stamp newydd yn debygol o arwain at addasiad a fyddai'n cynyddu grant bloc Llywodraeth Cymru). Gallai absenoldeb rhyddhad tebyg neu newidiadau eraill i'r rheolau yng Nghymru gael effaith annymunol ar ddinasyddion Cymru, busnesau Cymru neu fusnesau eraill sydd â phresenoldeb yng Nghymru neu sydd am ehangu i Gymru. Byddai'r defnydd o'r pŵer gan Weinidogion Cymru yn eu galluogi, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i gyflwyno rhyddhad tebyg neu ostyngiadau treth tebyg mewn ffyrdd amgen. Er bod pwerau gwneud rheoliadau cadarnhaol drafft yn bodoli eisoes i wneud newidiadau i'r rheolau rhyddhadau (gan gynnwys cyflwyno, diwygio neu ddileu rhyddhad), byddai'r pŵer yn y Bil yn galluogi cyflwyno'r rhyddhad yn gynt drwy reoliadau cadarnhaol gwnaed.

15. Gallai rheoliadau a wneir o dan y pŵer yn y Bil i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol (adran 1(1)(a)) godi lle, er enghraifft, y mae angen i gytundeb masnach neu aelodaeth o floc masnachu newydd gael triniaeth deg ar gyfer endidau yn debyg i endidau'r DU wrth drafod tir. Mae'r enghraifft o ryddhad blaenorol elusennau a oedd yn gymwys i gyrff elusennol yn yr UE a'r AEE yn enghraifft o rwymedigaethau cytuniad y mae angen darparu ar eu cyfer mewn trethi trafodiadau tir.

**<u>Rhan 4: Lesoedd</u>**

16. Yn Rhan 4 darperir ar gyfer cymhwyso'r Ddeddf i lesoedd. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i'r rheolau sy'n gymwys i lesoedd os bydd llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i'r dull o drethu lesoedd. Gallai hyn ddigwydd am fod mathau eraill o hawliau eiddo yn dod yn drethadwy (er enghraifft trwydded i feddiannu eiddo). Neu gallai fod angen newid rheolau eraill sy'n gymwys i'r gyfundrefn lesoedd bresennol i atal osgoi trethi, neu fod y rheolau yn cael eu diwygio mewn modd a fyddai'n cynyddu'r refeniw yn deillio o roi neu bennu lesoedd. Er y gallai'r un rheolau sy'n gymwys i lesoedd ar hyn o bryd yn fwy cyffredinol gael eu defnyddio, mae hefyd yn bosibl y bydd angen llunio rheolau penodol ar gyfer pob math o fuddiant eiddo newydd. Gan ddibynnu

ar yr amgylchiadau penodol, gallai'r newidiadau hyn fodloni naill ai'r prawf diben yn adran 1(1)(c) neu adran 1(1)(b).

**<u>Rhan 5:</u> <u>Cymhwyso'r Ddeddf a DCRhT at bersonau a chyrff penodol</u>**

17. Yn Rhan 5 darperir ar gyfer cymhwyso'r Ddeddf a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 i bersonau a chyrff penodol, gan gynnwys cwmnïau, partneriaethau ac ymddiriedolaethau.

18. Mae'n bosibl, er mwyn annog buddsoddi yn y DU, y gwneir newidiadau yn un o Gyllidebau'r DU i ddarparu triniaeth treth ar gyfer endidau o dramor er mwyn cael triniaeth treth debyg i gyfryngau buddsoddi sydd eisoes wedi cael triniaeth benodol. Mae'r rheolau presennol, er enghraifft, yn nodi y caiff cynlluniau ymddiriedolaeth unedau eu trin fel endid unigol (cwmni) at ddibenion TTT yn hytrach na bod pob deiliad ymddiriedolaeth unedau yn cael ei drin fel un o lawer o gydbrynwyr (gan fod eu hunedau i'w trin fel cyfranddaliadau mewn cwmni). Cafodd triniaeth debyg ei hymestyn hefyd i gynlluniau contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth (CCAC) ganol y 2010au (ac mae, ac eithrio rhyddhad hau'r TDDS ar gyfer CCAC, wedi'i chynnwys yn neddfwriaeth TTT). Gallai rhwymedigaethau cytuniad yn y dyfodol ei gwneud yn ofynnol i endidau newydd gael eu trin mewn modd tebyg i endidau tebyg yn y DU (neu gael rheolau sydd wedi'u llunio'n benodol ar eu cyfer) wrth brynu eiddo yn y DU. Gallai'r fath newidiadau fodloni gofynion y prawf diben yn adran 1(1)(a) lle roedd y driniaeth gyfatebol honno yn deillio o gydymffurfiaeth â rhwymedigaeth ryngwladol.

19. Yn yr un modd, heb rwymedigaeth o ran cytuniad, gall llywodraeth y DU ddarparu triniaeth i ddenu buddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru ystyried ei bod yn ddeniadol i Gymru hefyd. Lle y gall darparu'r driniaeth effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru bydd Gweinidogion Cymru yn gallu darparu triniaeth debyg (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) i endidau sy'n buddsoddi yng Nghymru oherwydd byddai'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(c).

20. Gallai penderfyniad llys bennu na wnaeth unrhyw agwedd ar y rheolau weithredu fel yr oedd yr ACC a llawer o gynghorwyr yn ei gredu. Gall fod angen egluro'r rheolau er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn TTT yn parhau i weithredu mewn modd cydlynol. Gallai fod angen yr eglurhad hwnnw yn ddi-oed. Er enghraifft, byddai unrhyw benderfyniad llys a oedd yn pennu bod y rheolau cydbrynwyr yn gweithredu mewn modd a oedd yn tanseilio hunanasesiad effeithiol TTT (neu weithgareddau cydymffurfio'r ACC) yn gofyn am ystyriaeth gynnar a di-oed er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn dreth yn parhau i fod yn effeithiol. Byddai'r pwerau yn y Bil hwn yn galluogi unrhyw eglurhad o'r fath, os y'i hystyriwyd yn angenrheidiol neu'n briodol, drwy sbarduno prawf diben 1(1)(d) a gallai hyn gael ei weithredu'n ddi-oed gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed.

**<u>Rhan 6:</u> <u>Ffurflenni treth a thaliadau</u>**

21. Yn Rhan 6 gwneir darpariaeth mewn perthynas â phryd y gwneir ffurflenni treth a thaliadau gan gynnwys rheolau a gweithdrefn ohirio.

22. Gallai penderfyniad llys bennu na wnaeth unrhyw agwedd ar y rheolau weithredu fel yr oedd yr ACC a llawer o gynghorwyr yn ei gredu. Gall fod angen egluro'r rheolau er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn TTT yn parhau i weithredu mewn modd cydlynol. Gallai fod angen yr eglurhad hwnnw yn ddi-oed. Er enghraifft, gallai unrhyw ganfyddiad sy'n newid rhwymedigaethau ffeilio presennol trethdalwyr neu'r hyn sy'n gyfystyr â thrafodiad hysbysadwy danseilio hunanasesiad effeithiol TTT. Byddai'r pwerau yn y Bil hwn yn galluogi unrhyw eglurhad o'r fath, os y'i hystyriwyd yn angenrheidiol neu'n briodol, drwy

sbarduno'r prawf diben yn 1(1)(d) a gallai hyn gael ei weithredu'n ddi-oed gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed.

23. Gallai llywodraeth y DU hefyd newid ei rheolau ar drafodiadau hysbysadwy. Er enghraifft, ar hyn o bryd, nid yw trafodiadau rhydd-ddaliadol ag ystyriaeth o lai na £40,000 yn drafodiad hysbysadwy yn TDDS na TTT. Petai llywodraeth y DU yn cynyddu'r ffigur hwnnw, byddai'n symleiddiad treth i drethdalwyr TDDS oherwydd byddai llai o drafodiadau yn esgor ar rwymedigaeth ffeilio. Fodd bynnag, byddai hefyd ganlyniadau o ran atebolrwydd ar gyfer treth oherwydd byddai ffigur hysbysu uwch, heb newidiadau eraill, yn arwain at beidio â thalu treth o dan y priod reolau cyfraddau preswyl uwch. Felly, gall y newid gan lywodraeth y DU arwain at newid i'r symiau a delir i'r Gronfa Gyfunol (gan felly sbarduno prawf diben 1(1)(c)). Yn yr achos hwn, gall Gweinidogion Cymru ddewis dyblygu newidiadau'r DU er mwyn lleihau'r rhwymedigaethau ffeilio (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd), ond cyfyngu ar hynny fel ei fod ond yn gymwys i'r trafodiadau hynny sy'n atebol ar gyfer prif gyfraddau preswyl TTT.

**<u>Rhan 7: Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi</u>**

24. Mae Rhan 7 yn mewnosod yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 y darpariaethau sy'n pennu'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi ar gyfer y trethi datganoledig. Ni ddefnyddir diwygiadau Rhan 7 i wneud unrhyw newidiadau pellach i'r DCRhT. Yn hytrach, gwneir newidiadau uniongyrchol i'r DCRhT gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil, ar yr amod bod y fath newidiadau yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

**<u>Rhan 8: Dehongli a darpariaethau terfynol</u>**

Mae Rhan 8 yn cyflwyno Atodlen 23 sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("DCRhT"). Ni ddefnyddir diwygiadau Rhan 8 i wneud unrhyw newidiadau pellach i'r DCRhT. Yn hytrach, gwneir newidiadau uniongyrchol i'r DCRhT gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil, ar yr amod bod y fath newidiadau yn bodloni'r meini prawf perthnasol

26. Mae'r Rhan hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig, gan gynnwys diffiniadau o ymadroddion a ddefnyddir yn y Ddeddf, er enghraifft, 'eiddo preswyl' a 'phersonau cysylltiedig'. Bu llawer o achosion Tribiwnlys yn ddiweddar lle mae trethdalwyr wedi dadlau eu bod wedi caffael eiddo preswyl ac amhreswyl. Pan fydd trafodiadau cymysg o'r fath bydd y dreth a delir gan y prynwr yn cael ei chyfrifo yn seiliedig ar y cyfraddau amhreswyl yn hytrach na'r cyfraddau preswyl (ac felly codir llai o dreth). Petai llywodraeth y DU yn gwneud newidiadau i'w rheolau yn dilyn colled ag effeithiau sylweddol, gall Gweinidogion Cymru benderfynu gwneud newidiadau tebyg (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd). Yn dibynnu ar y senario dan sylw, mae'n bosibl y gellid gwneud y rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil hwn, oherwydd gall 1(1)(b) gael ei sbarduno neu (a fwy na thebyg hefyd), oherwydd yr effaith ar yr addasiad i'r grant bloc, byddai'r prawf Cronfa Gyfunol yn cael ei fodloni (prawf diben 1(1)(c)).

**Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**
Adolygiad o'r Rhannau o'r Ddeddf ac enghreifftiau o ddiwygiadau a all gael eu gwneud gan reoliadau o dan Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

## Rhan 1: Trosolwg

27. Yn Rhan 1 ceir trosolwg o'r Ddeddf. Gallai fod angen diwygio'r Rhan hon o'r Ddeddf petai Rhan newydd yn cael ei chyflwyno gan reoliadau a wneir o dan y pŵer yn y Bil. Byddai unrhyw newidiadau i'r Rhan hon yn deillio o'r angen i wneud diwygiadau canlyniadol sydd o bosibl yn deillio o'r newidiadau sylweddol a wneir gan y rheoliadau.

## Rhan 2: Y Dreth a Gwarediadau Trethadwy

28. Yn Rhan 2 darperir y rheolau mewn perthynas â gwarediadau trethadwy a thrafodiadau esempt, gan bennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cael gwarediadau tirlenwi trethadwy. Ceir nifer o gysyniadau sy'n allweddol i weithredu'r dreth, er enghraifft, gwaredu'r deunydd fel gwastraff, ac nad yw'r defnydd o'r deunydd sy'n atodol i'w waredu drwy dirlenwi yn negyddu bwriad i fwrw deunydd o'r neilltu. Mae'n bosibl y gallai newidiadau gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil godi mewn perthynas ag atal gweithgareddau osgoi trethi (y prawf diben yn adran 1(1)(b)), y symiau a delir i'r Gronfa Gyfunol (y prawf diben yn adran 1(1)(c)) a chanfyddiadau llysoedd (y prawf diben yn adran 1(1)(d)).

29. Yn arbennig, gallai'r rhai sy'n ceisio osgoi talu Treth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) geisio camfanteisio ar fwlch canfyddedig yn y diffiniadau hyn er mwyn ceisio gwaredu gwastraff drwy dirlenwi heb dalu treth. Yn yr achosion hyn, gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio adran 1(1)(b) i unioni'r sefyllfa ac osgoi rhagor o achosion o'r fath.

30. Yn yr un modd, gall canfyddiad gan lys bod diffiniad yn caniatáu gweithgareddau heb dalu treth arwain at yr angen i egluro'r gyfraith drwy reoliadau sy'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(d) er mwyn diogelu'r sylfaen drethu ac o bosibl yr amgylchedd. Hwyrach mai dyma fydd yr achos yn enwedig petai'r dyfarniad yn gymwys i Gymru yn unig ac yn caniatáu gwaredu gwastraff yng Nghymru ar gost sylweddol is nag yn Lloegr.

31. Yn olaf, mae'n bosibl y gallai llywodraeth y DU wneud newidiadau i'r dreth ragflaenol sy'n arwain at dynhau'r diffiniadau fel bod rhagor o weithgareddau o fewn cwmpas ei threth, ac efallai hyd yn oed greu'r hyn a fyddai'n cyfateb i amod ychwanegol at ddibenion TGT. Gallai hyn effeithio ar y swm a delir i'r Gronfa Gyfunol (oherwydd byddai'r dreth ragflaenol yn gwneud mwy o ymdrech o ran treth nag yn flaenorol), a gallai effeithio ar yr amgylchedd wrth i Gymru ddod yn lle rhatach i waredu gwastraff. Yn unol â hynny, gall Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau sy'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(c) er mwyn lleihau'r effaith ar y Gronfa Gyfunol. Er bod nifer o bwerau gwneud rheoliadau eisoes wedi'u darparu i wneud newidiadau, maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft ac ni ellir eu gwneud yn ôl-weithredol (wedi'u dyddio i ddyddiad cyhoeddiad Gweinidogion Cymru). Bydd y pwerau yn y Bil yn galluogi gwneud rheoliadau drwy'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed, a bydd hefyd yn galluogi rheoliadau i gael effaith ôl-weithredol.

## Rhan 3: Gwarediadau Trethadwy a Wneir ar Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

32. Yn Rhan 3 gwneir darpariaeth mewn perthynas â sut y codir y dreth ar warediadau trethadwy ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, gan gynnwys y personau y mae'r dreth i'w

chodi arnynt, cyfrifo treth, rhyddhadau, gofynion cofrestru a chyfrifyddu, a thalu, adennill ac ad-dalu treth.

33. Ceir nifer o Rannau yn y Ddeddf TGG sy'n cynnwys diffiniadau yn deillio o aelodaeth flaenorol y DU o'r UE. Un enghraifft yw'r diffiniad o wastraff nad yw'n beryglus (gofyniad 5 o adran 16(1) o Ddeddf TGG). Mae'n bosibl y gallai cytundebau a chytuniadau masnach yn y dyfodol gynnwys gofynion ar gyfer diffiniadau cyffredin rhwng y gwledydd neu'r endidau contractiol, nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniadau sy'n bodoli eisoes. Yn y senario hon, gallai adran 1(1)(a) gael ei defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol.

34. O ran mynd i'r afael ag osgoi trethi (adran 1(1)b)), mae'n bosibl y ceir sefyllfa lle gall trethdalwyr geisio ehangu'r diffiniadau o rai o'r mathau o ddeunyddiau er mwyn talu llai o dreth. Neu, gallent geisio camfanteisio ar y graddau y gall cymysgedd o ddeunyddiau gael eu trin o hyd fel cymysgedd cymwys y gellir talu llai o dreth mewn perthynas ag ef. Hwyrach y bydd Gweinidogion Cymru am allu atal unrhyw weithgareddau osgoi trethi pan gânt eu nodi drwy ddefnyddio'r pŵer i egluro unrhyw agwedd ar y ddeddfwriaeth y camfanteisir arni o bosibl. Byddai'r ACC wedyn yn mynd i'r afael â'r gweithgareddau osgoi trethi a ddigwyddodd cyn y dyddiad y daeth y rheoliadau diwygio i rym.

35. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys nifer o ryddhadau y gall trethdalwyr eu hawlio. Er bod pŵer ar gael i Weinidogion Cymru eisoes i wneud rheoliadau cadarnhaol drafft er mwyn creu rhyddhad newydd, neu ddiwygio neu ddileu rhyddhad sy'n bodoli eisoes, gall fod sefyllfaoedd lle gall fod angen gwneud y newidiadau hyn fel eu bod yn cael effaith ar unwaith, neu'n cael effaith ôl-weithredol o bosibl. Petai llywodraeth y DU yn diwygio rhyddhad tebyg mewn treth dirlenwi er mwyn tynhau'r amodau mae'n bosibl y gellir gwaredu'r gwastraff yng Nghymru o hyd, ac yn amodol ar ryddhad. Gallai'r pŵer yn y Bil (adran 1(1)(c)) gael ei ddefnyddio oherwydd yr effaith ar y swm a delir i'r Gronfa Gyfunol (byddai llywodraeth y DU yn gwneud mwy o ymdrech o ran treth drwy dreth dirlenwi gan arwain at leihau'r swm a delir i'r Gronfa Gyfunol). Felly, byddai buddiannau i fabwysiadu'r un amodau neu dynhau'r amodau mewn modd tebyg, a hynny'n gyflym, er mwyn mynd i'r afael â'r mater refeniw ond hefyd y materion amgylcheddol posibl hefyd.

36. Neu, gallai llywodraeth y DU ddiwygio rhyddhad sy'n bodoli eisoes neu gyflwyno rhyddhad newydd i ddarparu rhyddhad o TGT. Gallai rhyddhad newydd fod yn un dros dro o bosibl er mwyn mynd i'r afael â mater amgylcheddol penodol sydd wedi codi, er enghraifft, darparu rhyddhad o TGT ar gyfer gwarediadau tirlenwi sy'n deillio o lifogydd neu ddigwyddiad penodedig arall. Bydd y symiau a delir i'r Gronfa Gyfunol yn cynyddu (bydd llywodraeth y DU yn gwneud llai o ymdrech o ran treth gyda TGT). Hwyrach y bydd Gweinidogion Cymru am ddefnyddio adran 1(1)(c) (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) i ddarparu rhyddhad tebyg yng Nghymru, ag effaith ôl-weithredol o bosibl, fel bod y rhyddhad ar gael i drethdalwyr yng Nghymru o'r un dyddiad â rhyddhad tebyg yn Lloegr.

## Rhan 4: Gwarediadau Trethadwy a Wneir mewn Lleoedd Heblaw Safleoedd Tirlenwi Awdurdodedig

37. Yn Rhan 4 gwneir darpariaeth mewn perthynas â sut y codir y dreth ar warediadau trethadwy mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig, gan gynnwys, y personau y mae'r dreth i'w chodi arnynt, y weithdrefn ar gyfer codi treth, talu treth, a llog taliadau hwyr ar dreth sydd heb ei thalu.

38. Roedd y rheolau yn ymwneud â gwarediadau trethadwy mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn ddatblygiad newydd ar gyfer trethi tirlenwi ledled y DU.

Ymhellach, mae dyluniad y rheolau ar gyfer TGT yn wahanol i'r rhai sy'n codi treth ar fathau tebyg o warediadau yn yr Alban a gweddill y DU. Nid yw'r rheolau hyn wedi cael eu profi mewn llys eto ac mae'n bosibl y gall penderfyniad llys yn y dyfodol arwain at reolau sy'n gweithredu mewn ffordd nad yw'n caniatáu codi treth ar y gyfradd gwarediadau anawdurdodedig, neu sy'n ei gwneud yn anodd iawn gwneud hynny. Gall Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau sy'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(d) yn yr amgylchiadau hyn er mwyn rhoi eglurhad i drethdalwyr. Gallai'r rheoliadau hynny, yn enwedig os y'i gwneir gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol gwnaed, fynd i'r afael â chanfyddiadau llys yn gyflym ac (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) gynnal effeithiolrwydd y gyfundrefn gwarediadau anawdurdodedig. Mae llawer o'r adrannau unigol yn y Rhan hon yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ond gall natur y gyfundrefn ei gwneud yn ofynnol gwneud y newidiadau'n gyflymach, yn enwedig os yw'r ACC yn mynd i'r afael â nifer o achosion tebyg ar yr un pryd lle gallai'r penderfyniad gael effaith uniongyrchol ar eu canlyniad.

**<u>Rhan 5:</u> <u>Darpariaeth Atodol</u>**

39. Yn Rhan 5 gwneir darpariaeth atodol mewn perthynas â'r dreth, gan gynnwys, dynodi mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu o fewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig, archwilio mangreoedd a rhannu gwybodaeth, cosbau, a chymhwyso darpariaethau'r Ddeddf hon a DCRhT mewn amgylchiadau penodol.

40. Mewn perthynas â'r Rhan hon, bydd angen defnyddio'r pŵer yn y Bil yn sgil penderfyniadau llysoedd fwy na thebyg (adran 1(1)(d)). Er enghraifft, gallai penderfyniad llys ymwneud ag ystyr neu gymhwyso ‘esgus rhesymol’ at ddibenion cosb am beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd i gofrestru. Mae'n bosibl y gallai'r penderfyniad gasglu bod ystyr a chymhwyso esgus rhesymol yn gulach nag oedd Gweinidogion Cymru yn ei ddisgwyl fel y caiff trethdalwyr eu cosbi mewn amgylchiadau amhriodol, neu, i'r gwrthwyneb, y dylai cosbau gael eu had-dalu mewn llawer mwy o sefyllfaoedd fel nad yw'r gyfundrefn gosbau yn effeithiol. Bydd unrhyw newidiadau a wneir gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio'r pŵer i egluro'r ddeddfwriaeth yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

41. Mae Rhan 5 hefyd yn darparu ar gyfer Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Byddai digwyddiad allanol fel y darperir ar ei gyfer yn adran 1 o'r Bil yn annhebygol iawn o sbarduno unrhyw newidiadau i'r rheolau yn ymwneud â Chynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

**<u>Rhan 6:</u> <u>Darpariaethau Terfynol</u>**

42. Yn Rhan 6 ceir darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon (gan gynnwys darpariaeth ynghylch dehongli'r Ddeddf hon). Bydd tebygolrwydd bach iawn y bydd newidiadau i'r Rhan hon yn bodloni'r pedwar prawf diben. Hwyrach y gallai penderfyniad llys effeithio ar ystyr rhai o'r dehongliadau (er bod llawer yn croesgyfeirio at adrannau o'r Ddeddf ac felly byddai unrhyw eglurhad a wneir gan y rheoliadau yn ymwneud â'r Rhan honno yn hytrach na Rhan 6).

**<u>Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016</u>**

Adolygiad o'r Rhannau o'r Ddeddf ac enghreifftiau o ddiwygiadau a all gael eu gwneud gan reoliadau o dan Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu).

43. Nid yw'r enghreifftiau a roddir ar gyfer pob un o'r Rhannau isod yn gynhwysfawr, ond maent yn ceisio dangos y mathau o feysydd lle gallai digwyddiadau allanol arwain at

sefyllfa lle y byddai Gweinidogion Cymru yn ceisio gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) gan ddefnyddio'r pŵer a ddarperir gan Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu). Gall y mwyafrif o'r senarios a nodir sbarduno prawf diben 1(1)(d) mewn perthynas ag ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio ar weithredu unrhyw rai o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny, neu a all effeithio ar hynny.

**Rhan 1: Trosolwg**

44. Yn Rhan 1 ceir trosolwg o'r Ddeddf. Hwyrach y bydd angen diwygiadau canlyniadol i'r Rhan hon o'r Ddeddf os caiff Rhan newydd ei chyflwyno gan reoliadau a wneir o dan y pŵer yn y Bil, neu os caiff elfennau newydd eu hychwanegu at Rannau sy'n bodoli eisoes.

**Rhan 2: Awdurdod Cyllid Cymru**

45. Mae Rhan 2 yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Ni ellir gwneud newidiadau i'r Rhan hon o dan y pŵer yn y Bil.

**Rhan 3: Ffurflenni Treth, Ymholiadau ac Asesiadau**

46. Yn Rhan 3 gwneir darpariaeth yn ymwneud ag asesu trethi datganoledig sef, dyletswyddau trethdalwyr, ffurflenni treth, ymholiadau gan ACC i ffurflenni treth, dyfarniadau ac asesiadau treth gan ACC a hawliadau rhyddhad treth, ad-daliadau treth a'r weithdrefn ar gyfer eu gwneud.

47. Mae'n bosibl y gallai heriau cyfreithiol gan drethdalwyr o ran dilysrwydd y broses ffurflenni, proses neu gwmpas ymholiadau gan ACC neu, unrhyw asesiadau neu ddyfarniadau a wneir leihau gallu ACC i asesu trethdalwyr yn briodol. Ymhlith yr enghreifftiau o benderfyniadau y mae llywodraeth y DU wedi gorfod ymateb iddynt yn flaenorol mae *HMRC v Jason Wilkes [2021] UKUT 0150* a arweiniodd at CThEM yn methu â defnyddio adran 29 o Ddeddf Rheoli Trethi 1970 ("DRhT 1970") i asesu Tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel. Roedd y tâl yn swm o dreth roedd y trethdalwr yn atebol amdano, nid "income which ought to have been assessed to income tax" o fewn ystyr a.29(1)(a).

48. Yn dilyn hyn cyflwynodd llywodraeth y DU ddiwygiadau di-oed yn Neddf Cyllid 2002 er mwyn galluogi CThEM i wneud asesiadau ar gyfer colli treth mewn perthynas â budd-dal plant. Enghraifft arall oedd yr heriau cyfreithiol amrywiol i ddilysrwydd rhai o hysbysiadau awtomataidd CThEM, gan gynnwys hysbysiadau i ffeilio ffurflenni (a8 DRhT 1970). Yn yr achos hwn, cyhoeddodd llywodraeth y DU newidiadau i'w systemau a fyddai'n cael effaith bosibl ac ôl-weithredol[3]. Yn unol â hynny, petai achosion tebyg yn cael eu dwyn gerbron ACC yng Nghymru, neu fod penderfyniadau mewn achosion eraill yn cael effaith yn Neddfau Trethi Cymru, gellid defnyddio adran 1(1)(d) i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r gyfraith yn gyflym, er mwyn darparu eglurhad ac osgoi her bellach.

49. Mae hawlio ad-daliad treth a ordalwyd yn gyfyngedig mewn nifer o amgylchiadau[4]. Hwyrach y gallai penderfyniad llys yn y dyfodol bennu nad yw un neu ragor o'r cyfyngiadau hyn yn gymwys yn y ffordd sy'n wahanol i'r hyn a gredwyd yn wreiddiol gan yr ACC. Gallai atal hawliadau pellach posibl o ran ad-dalu treth o ganlyniad i benderfyniad llys o'r fath yn gyflym fod yn angenrheidiol mewn amgylchiadau lle mae

[3] Penderfyniadau Awtomataidd: Nodyn technegol Hydref 2019 (publishing.service.gov.uk)
[4] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk) – adran 67

gwneud y fath ad-daliadau nawr yn ffafrio rhai trethdalwyr yn annheg. Yn yr un modd, petai penderfyniad y llys yn pennu bod y gyfraith yn ymwneud â hawliadau a weithredwyd mewn modd mwy cyfyngedig na'r bwriad, yna unwaith eto gall fod angen i'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio'n gyflym fel bod modd ehangu'r gallu i hawlio. Byddai adran 1(1)(d) yn caniatáu diwygiad di-oed i'r gyfraith yn y mathau hyn o amgylchiadau.

**Rhan 3A: Y Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi**

50. Yn Rhan 3A gwneir darpariaeth mewn perthynas â gwrthweithio trefniadau osgoi trethi o ran trethi datganoledig (y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi – y 'RhGEOT'). Er ei bod yn debygol mai dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y bydd angen i Weinidogion Cymru newid gweithrediad y RhGEOT, mae'n bosibl y gall fod angen gwneud newidiadau ar fyr rybudd ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

51. Mae'r angen cyfyngedig hwn am newid yn fwyaf tebygol o godi mewn sefyllfaoedd lle mae llys yn dyfarnu ynghylch ystyr gwahanol ddarpariaethau sy'n lleihau neu'n ehangu cwmpas y RhGEOT mewn ffordd nas rhagwelwyd neu mewn ffordd annisgwyl. Gall y fath sefyllfa godi, er enghraifft, lle mae llys yn arddel barn ynghylch dehongli 'artiffisial' (prif gysyniad yn y RhGEOT) sy'n ehangach neu'n gulach na'r hyn a ddeallwyd gynt, ac felly sy'n ehangu cwmpas y RhGEOT neu o bosibl yn lleihau ei heffeithiolrwydd. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddai'r gallu i ddefnyddio adran 1(1)(d) i egluro'r gyfraith yn ddi-oed o fudd mawr i ddiogelu refeniw ar un llaw a threthdalwyr ar y llaw arall.

**Rhan 4: Pwerau Ymchwilio ACC**

52. Yn Rhan 4 gwneir darpariaeth ynghylch pwerau ymchwilio'r ACC, gan gynnwys o ran hysbysiadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol darparu gwybodaeth ac archwilio mangreoedd.

53. Mae'n fwyaf tebygol yr eglurir y gyfraith o ran Rhan 4 o ganlyniad i benderfyniadau gan y llysoedd. Gall Gweinidogion Cymru benderfynu bod angen egluro Rhan 4 (yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd) er mwyn galluogi'r ACC i barhau i gyflawni ei weithgareddau cydymffurfio yn effeithiol. Gallai penderfyniadau llys o'r fath ddeillio o achosion lle mae'r trethdalwr yn herio'r defnydd o bwerau gwybodaeth yr ACC gan arwain at newid yn ei allu i'w defnyddio, neu mewn canfyddiad y cawsant eu defnyddio ultra vires yn flaenorol. Mae pwerau gwybodaeth yn hanfodol i'r gwaith a wneir gan yr ACC i sicrhau bod trethdalwyr yn talu'r swm cywir o dreth.

54. Enghraifft benodol o hyn yw y gallai penderfyniad llys yn y dyfodol arwain at gyfyngu'n fwy ar yr amodau y mae angen eu bodloni i'r ACC ddyroddi hysbysiad gwybodaeth, megis cadarnhau sefyllfa dreth unigolyn a'i bod yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol, na'r hyn a ddeallwyd gynt. Byddai hynny'n arwain at gyfundrefn hysbysiadau gwybodaeth fwy cyfyngol oherwydd nid yw'n darparu'r ACC â'r adnoddau disgwyliedig i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ac efadu'r trethi datganoledig. Byddai defnyddio'r pŵer yn adran 1(1)(d) yn fodd i egluro'r ddeddfwriaeth yn ddi-oed er mwyn adlewyrchu penderfyniad y llys yn gliriach.

**Rhan 5: Cosbau**

55. Yn Rhan 5 gwneir darpariaeth ar gyfer gosod cosbau mewn perthynas â threthi datganoledig, ac mewn cysylltiad â hynny.

56. Bydd angen defnyddio'r pŵer yn y Bil yn sgil penderfyniadau llysoedd fwy na thebyg. Er enghraifft, gallai penderfyniad llys bennu bod ystyr neu gymhwyso 'amgylchiadau

arbennig'[5] neu 'esgus rhesymol'[6] yn gulach na'r hyn a ystyriwyd yn rhesymol yn wreiddiol, fel na chaiff trethdalwyr lai o gosb mewn amgylchiadau priodol, neu, i'r gwrthwyneb, y dylai'r fath leihad gael ei ddarparu mewn llawer mwy o sefyllfaoedd fel bod y gyfundrefn gosbau yn aneffeithiol. Byddai'r defnydd o'r pŵer yn adran 1(1)(d) yn y mathau hyn o amgylchiadau yn egluro'r gyfraith i drethdalwyr ac ACC fel ei gilydd, gan sicrhau bod y rheolau'n gweithredu'n effeithiol.

57. Ymhellach, gallai dehongliad annisgwyl llys ynghylch y mathau o ddatgelu neu gymorth y gall trethdalwr eu darparu er mwyn lleihau'r cosbau y bydd yn atebol ar eu cyfer (a elwir yn 'dweud', 'helpu' a 'rhoi' yn aml) arwain at gyfundrefn gosbau lymach gan greu annhegwch i drethdalwyr.

**Rhan 6: Llog**

58. Yn Rhan 6 gwneir darpariaeth i log fod yn daladwy ar daliadau hwyr i'r ACC ac ar ad-daliadau gan yr ACC. Mae'n Rhan fer sydd ond yn cynnwys wyth adran. Gallai llys bennu bod ystyr "swm perthnasol"[7] fel y'i diffinnir yn adran 161(2) yn ehangach na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol a'i fod yn cynnwys unrhyw swm a delir i'r ACC fel bod rhaid i'r ACC dalu llog ar ad-daliadau mewn mwy o amgylchiadau na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Gall Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau sy'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(d) er mwyn egluro'r ddeddfwriaeth.

**Rhan 7: Talu a Gorfodi**

59. Yn Rhan 7 gwneir darpariaeth ynghylch taliadau i'r ACC ac adennill symiau nas talwyd. Unwaith eto, mae hon yn Rhan fer, sydd ond yn cynnwys saith adran. Hwyrach y bydd llys yn pennu bod y rheolau'n gweithredu'n wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol a sut mae trethdalwyr, yr ACC, ac o bosibl y llysoedd eu hunain wedi rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith. Gall Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau sy'n bodloni'r prawf diben yn adran 1(1)(d) er mwyn egluro'r ddeddfwriaeth.

**Rhan 8: Adolygiadau ac Apelau**

60. Yn Rhan 8 gwneir darpariaeth ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau'r ACC ac apelau yn eu herbyn, ac mewn cysylltiad â hynny. Mae'r Rhan hon yn ymwneud â'r gweithdrefnau adolygu ac apelio pan fo anghytundeb rhwng y trethdalwr a'r ACC. Gallai llys bennu bod y penderfyniadau apeliadwy[8] yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan yr ACC nas ystyriwyd yn apeliadwy gynt. Ymhellach, gallai penderfyniad y llys bennu nad yw rhai o benderfyniadau'r ACC y credwyd eu bod yn apeliadwy gynt ac a gafodd eu trin felly yn benderfyniadau apeliadwy mwyach. Mewn amgylchiadau o'r fath hwyrach y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno gweithredu'n ddi-oed, gan ddefnyddio adran 1(1)(d) i sicrhau bod buddiannau trethdalwyr yn cael eu diogelu o hyd a bod penderfyniadau'r ACC yn apeliadwy.

**Rhan 9: Ymchwilio i Droseddau**

61. Yn Rhan 9 rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ynghylch ymchwilio i droseddau sy'n ymwneud â threthi datganoledig. Mae'r Rhan hon yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau cadarnhaol drafft mewn perthynas â chymhwyso Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu

---

[5] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk) – Adran 125 DCRhT
[6] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk) – Adran 126 DCRhT
[7] ("swm a dalwyd mewn cysylltiad ag unrhyw rwymedigaeth i dalu ... swm o dreth ddatganoledig"
[8] Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk) – Adran 172 DCRhT

2001 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, i'r ACC. Hefyd mae'r Rhan yn gwneud rhai diwygiadau i Ddeddf Enillion Troseddau 2002 ac yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn penodedig mewn perthynas â'r Ddeddf honno.

62. Mae'n annhebygol iawn y caiff unrhyw un o'r pedwar prawf diben ei sbarduno mewn ffordd lle bydd Gweinidogion Cymru yn ei chael hi'n angenrheidiol neu'n briodol gwneud rheoliadau mewn perthynas â Rhan 9 gan ddefnyddio'r pŵer yn y Bil. Byddaf yn ystyried cyflwyno diwygiad i hepgor y Rhan hon o'r Bil mewn modd tebyg i Ran 2 o'r DCRhT.

**<u>Rhan 10: Darpariaethau Terfynol</u>**

63. Mae Rhan 10 yn cynnwys darpariaeth sy’n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon, gan gynnwys dyroddi hysbysiadau gan ACC, rhoi hysbysiadau i ACC a dehongli.

64. Hwyrach y gallai llys ddehongli ‘hysbysiad’ mewn modd sy'n golygu bod hysbysiadau a ddyroddwyd eisoes yn annilys neu'n aneffeithiol. Yn yr un modd, gallai'r llys bennu bod y rheolau ar gyfer dyroddi hysbysiad yn wahanol i'r hyn a ddeallwyd fel effaith y rheolau, gan, unwaith eto, annilysu hysbysiadau a gafwyd gan drethdalwyr, neu a ddyroddwyd iddynt, megis diwygiadau i ffurflenni treth, neu hysbysiadau ymholiadau.

65. Hefyd gallai llys ystyried bod i ‘ffurflen’ dreth ddilys ystyr ehangach, mewn ffordd sy'n golygu bod ffurflenni ar-lein yr ACC yn aneffeithiol neu'n cyfyngu ar faint o wybodaeth y mae'r ACC yn ei chasglu (gan yn ei dro effeithio ar allu'r ACC i asesu risg ffurflenni).

66. Yn y mathau hyn o senarios, gall prawf diben 1(1)(d) gael ei sbarduno, gan alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn ddi-oed os oes angen.

Gobeithio bod yr wybodaeth a atodir yn helpu i ddarparu eglurhad cyn Dadl Egwyddorion Cyffredinol Cam 1.

Byddaf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

CC: Cadeirydd y Pwyllgor DCC